**Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Education and Public Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

12 Hydref 2017

Annwyl ,

**Cwyn mewn cysylltiad â Chais am Wybodaeth – cyfeirnod ATISN 11410**

Rwyf wedi ail edrych ar yr ymateb gwreiddiol a roddwyd i chi ar 17 Awst 2017 mewn perthynas â'ch Cais am Wybodaeth ynghylch copïau o'r ohebiaeth a anfonwyd gan Llywodraeth Cymru at awdurdodau lleol, rhwng 1af Ionawr 2016 hyd at heddiw, ynghylch ceisiadau ar gyfer Band B y rhaglen "Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif".

Rwy'n deall i rywfaint o'r wybodaeth gael ei rhyddhau yr adeg honno, ond, wedi dwys ystyriaeth, cadwyd yr wybodaeth a ganlyn yn ôl o dan adran 36(2)(c) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, (gwybodaeth sydd fel arall yn rhagfarnu ymddygiad effeithiol materion cyhoeddus).

- Cynigion Cychwynnol ar gyfer Band B a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ym mis Rhagfyr 2016.

Ysgrifennwyd atoch ar 14 Medi 2017 i gadarnhau ein penderfyniad. Ar sail hynny, fe ofynnoch am adolygiad mewnol i'r penderfyniad.

Ar ôl edrych unwaith eto ar y ddogfennaeth a ryddhawyd i chi, yn ogystal â'r wybodaeth uchod a gadwyd yn ôl, rwyf wedi dod i'r casgliad bod adran 36(2)(c) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi ei chymhwyso'n gywir. Mae'r rhesymau dros hynny wedi ei nodi yn yr ymateb gwreiddiol.

Mae gennych hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn dal i fod yn anfodlon â'r ateb hwn.  Dyma'r cyfeiriad:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ffôn : 01625 545 745
Ffacs: 01625 524 510
E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Hefyd, os oes gennych reswm i gredu ein bod wedi camweinyddu wrth ddelio â'ch cais, gallwch ddewis gwneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dyma'r cyfeiriad:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pen-coed
Pen-y-bont ar Ogwr
CF35 5LJ

Ffôn: 0845 6010987 (cyfradd leol)
E-bost: ask@ombudsman-wales.org.uk

Yn gywir

Melanie Godfrey
Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg